

# PENNOD 10: PEDAIR CÂN

Salm 115. 1

*Nid i ni, O Arglwydd, nid i ni, ond i'th enw dy hun, rho ogoniant,  
er mwyn dy gariad a'th ffyddlondeb.*

Ymddengys pedair cân yn hanes Luc o'r Geni: *Magnificat* Mair, *Benedictus* Sachareia, *Gloria'r* Angylion a *Nunc Dimittis* Simeon. Daw eu teitlau o air cyntaf ym Meibl Lladin *Y Fwlgat* a gyfieithiwyd o'r Hebraeg a'r Roeg gan Jerôm (c.342-420), Cristion Lladin. Credir iddo ddysgu bod yn gyfreithiwr cyn ei ordeinio. Gwaith mawr ei fywyd oedd troi geiriau'r Ysgrhythurau i'r Lladin, yr iaith cyffredin. Y mae yna draddodiad lleol iddo gyflawni'r gwaith pan yn byw mewn ogof ar fryn Tantwr, cartref heddiw i'r Sefydliad Ecwmenaidd o'r un enw ar ffordd rhwng Jerwsalem a Bethlehem. Dilynodd yr arfer o ddefnyddio geiriau Lladin cyntaf y caneuon fel teitlau gan y *Llyfr Gweddï Cyffredin*, fel gyda'r Salmau, a dyna'r ffordd o'u hadnabod heddiw.

Y mae i ganeuon le pwysig iawn ym mywydau pobl ond gall y cynefindra hyn arwain at fethu clywed eu neges, tra y gall rhagfarn ddallu pobl rhag deall arwyddocâd eu geiriau. Peth hawdd yw i ganeuon ddeffro teimladau dyfnion – defosiwn, serch, casineb, gwladgarwch neu gwneud i bobl brynu pethau nad oes ganddynt unrhyw ddefnydd ohonynt neu diddordeb ynddynt. Perchen pob mudiad mawr hanes ei anthem ei hun: Rhyfel Annibyniaeth American a'r *Star Spangled Banner*; *Marseillaise* y Chwyldro Ffrengig a'r *March of the Women* eiddo i Swffragetiaid Prydain. Nes ymlaen yn yr Ugeinfed Ganrif daeth y gwrthdaro ffyrnig rhwng ddwy ideoleg: Sosialaeth Genhedlaethol yr Almaen gyda'r *Chân Horst Wessel* a Chomwnyddiaeth a'r *Baner Coch*. Gall neb orddweud pwysigrwydd *We shall overcome* yn y frwydr dros hawliau y dynion duon yn yr Unol Daleithiau na *Nkosi Sikelel'i Afrika* yn y frwydr hir yn erbyn Apartheid.

Peth trist yw croniclo fel y bu Cristnogion yn defnyddio caneuon fel arfau erbyn eu gilydd dros y canrifoedd: *Ein Feste Burg* o eiddo Martin Luther, fel engraifft. Canodd Protestaniaid Gogledd Iwerddon *The Sash my father wore* i foddï allan *Faith of our Fathers* y Catholigion. Gwerth nodi bod y ddwy olaf hyn yn edrych yn ôl tra bod y lleill yn edrych ymlaen.

Llenwir Sachareias gan yr Ysbryd Glân a dawn proffwydo a dyma'r cyntaf o emynau mawr yr Eglwys i'w gael yn hanes y Geni, sef y *Benedictus*. Y mae yno nifer o ddyfyniadau o'r Hen Destament.<sup>55</sup> Mawl i Dduw sydd yma am ddanfon y Meseia, o dŷ Dafydd, i waredu ei bobl o iau Rufain, yn ôl ei addewid i Abraham. Ond yn y darn olaf o'r gân, adnodau 76-79, ceir cynnwys

Cristnogol pennodol. Mab Sachareias yw'r un a elwir yn "broffwyd y Goruchaf, oherwydd byddi di'n cerdded o flaen yr Arglwydd i baratoi ei lwybrau gan fynd a ni yn ôl unwaith eto at y proffwyd Eseia.<sup>56</sup> Yma y ceir sôn am "wardigaeth" a "maddeuant pechodau." Gwaith loan fydd pregethu ediferiwch a gwaredigaeth trwy "trugaredd calon ein Duw." Eto y cawn ein harwain yn ôl at Eseia, y tro hwn i ran gyntaf y llyfr, lle defnyddia'r proffwyd y berf gorffennol, proffwydol, "Y bobl oedd yn rhodio mewn tywyllwch a welodd oleuni mawr, y rhai a fu'n byw mewn gwlad o gaddug dudew, a gafodd lewyrch golau."<sup>57</sup> Ychwanegodd Sachareias eiriau eraill at "tywyllwch," gan sôn am "tywyllwch cysgod angau." Daeth diwedd ar dywyllwch ac angau trwy gwaith yr hwn sy'n "cyfeirio ein traed i ffordd tangnefedd." I'r hen offeiriad hwn, fe wireddwyd addewidion Duw.

Y fwyaf chwyldroadol yw *Magnificat* Mair, er yr ymddengys yn aml bod yr Eglwys gyfan wedi anghofio arwyddocâd eu geiriau, gan ei throi yn gân fach felys arall. Mae'r un peth yn wir, wrth gwrs, am y dair arall. Yr hyn glywodd y bugeiliaid oedd am ddyfodiad Gwaredwr, Crist ac Arglwydd ac efe fyddai'n dod ag heddwrch i'w bobl.

Mae hyd yn oed yr hen ddyn Simeon, wrth iddo ddiolch am gyflawni ei amser hir o aros a'i ryddhâd yn awr, yn edrych ymlaen at yr amser pan fydd yr holl bobloedd yn cael rhannu yr un fraint. Neges debyg sydd gan Simeon, sy'n sôn hefyd am rhyddid, tangnefedd a goleuni. Yr hyn sy'n chwyldroadol ganddo yw bod y goleuni i'r cenhedloedd yn ogystal ag Israel. Cynrychiola Simeon ac Anna credinwyr gostyngedig a ffyddlon ymhob canrif, y mae eu gweddiau a'u bywydau ffyddlon wedi paratoi'r ffordd i bob un o fudiadau mawr hanes y Ffydd. Ac y maent ar gael o hyd.

Rwy'n cofio mynd o gwmpas mynachdy yr Ynys Bur pan yn fyfyrwr ym Mhrifysgol Cymru, Abertawe. Gofynnodd rhywun i'r mynach fu'n ein harwain o gwmpas, "Pa werth sydd i le fel hwn?" Atebodd, "Bum yn gafridog brigâd. I mi, ein gwaith ni yw bod megis fagnelau, yn saethu'n gweddiau at Dduw tra eich bod chwi, y bobl yn y plwyfi, fel milwyr traed ym maes y gât." Gall hyd yn oed heddwrchwyr fel minnau dderbyn ei ddarlun. Dros y blynyddoedd rwyf wedi ceisio perswadio llawer o bobl hyn sy'n teimlo'n ddiwerth i newid catrawd, gan ymuno a'r magnelau mawrion. Hyderaf y byddaf innau'n barod i wneud os daw'r amser.

Felly, dyma'r bedair cân yn dathlu gweithred Duw yng ngeni Iesu Grist. Adlewyrchu mae'r caneuon chwyldro mawr sydd i droi'r byd a'i wyneb i waered, y bydd ei effaith yn fwy na holl fudiadau a symudiadau hanes.

*Mawl i Dduw Hollalluog, a ddaeth yn ei gariad, i waredu dynolryw.  
Mawl i'r Arglwydd, a wnaeth ei hun megis dim i ddyrchafu'r tlawd.  
Mawl i sanctaidd Blentyn Mair.  
Mawl i'r Gair tragwyddol a gymerodd gnawd er ein mwyn.  
Mawl i Grist Iesu ein Gwarddwr, gyda'r Tad a'r Ysbryd  
yn awr a thros byth.*

## **Cwestiynau i'w hystyried neu i'w trafod**

Pa mor berthnasol yw'r caneuon hyn i'r Eglwys ac i'r byd heddiw?

Beth yw lle caneuon a cherddoriaeth yn ein addoli a'n ffydd heddiw?